Datganiad o Sefyllfa Reoliadol Dŵr Cymru Welsh Water
Gwaredu Diodydd Alcoholaidd Gwastraff o Eiddo Trwyddedig oherwydd Cyfyngiadau Covid-19

Mae Dŵr Cymru Welsh Water wedi ymrwymo i gynorthwyo ein cwsmeriaid busnes yn ystod y pandemig Covid-19. Mae'r datganiad o sefyllfa yma ar gyfer gweithredwyr eiddo trwyddedig yn ardal ddaearyddol Dŵr Cymru Welsh Water sydd â diodydd alcoholaidd na fu modd eu defnyddio (cwrw, seidr, lager ac ati) oherwydd y pandemig COVID-19. Mae'n amlinellu rhai opsiynau posibl ar gyfer cael gwared ar y rhain, a beth i'w ystyried wrth benderfynu sut i ddelio â'r gwastraff.

Yn sgil gorchymyn i gau pob busnes dianghenraid er mwyn rheoli lledaeniad COVID-19, mae'n bosibl y bydd gan lawer o sefydliadau stoc o ddiodydd alcoholaidd na allant eu gwerthu. Wrth i Lywodraeth Cymru (neu Lywodraeth y DU yn Lloegr) lacio'r rheolau ar fusnesau, mae'n bosibl y bydd angen i rai eiddo trwyddedig glirio'r diodydd nad oes modd eu defnyddio o'u storfeydd er mwyn ailstocio.

Mae diodydd sy'n anffit i'w defnyddio, ac y mae angen cael gwared arnynt felly, yn wastraff, a rhaid rheoli'r gwastraff o dan y rheoliadau sydd mewn grym yng Nghymru neu Loegr ar y pryd.
Dyma ddolen i ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arweiniad-ynghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff.pdf
Dyma ddolen i ganllawiau cyfredol Llywodraeth y DU yn Lloegr:
https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-applying-the-waste-hierarchy

Mae nifer o opsiynau ar gael i fusnesau i reoli'r gwastraff yma, er enghraifft:

- *A oes modd dychwelyd y diodydd gwastraff i'r bragdy neu'r cynhyrchydd i'w gwaredu mewn ffordd briodol?*
- *A ellir ailgyfeirio'r diodydd gwastraff i broses gweithgynhyrchu arall e.e. distyllu i gynhyrchu alcohol diwydiannol?*
- *A ellir mynd â'r diodydd gwastraff i gyfleuster treulio anaerobig neu gompostio?*
- *A ellir taenu'r diodydd gwastraff ar dir? Gall hyn fod ar eich tir eich hun e.e. cwrs golff, neu ar dir amaeth. Os ydych am ystyried yr opsiwn yma, rhaid i chi gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr) am gyngor cyn mynd ati, am fod rheoliadau a chyfyngiadau'n berthnasol i'r math yma o ddefnydd.*
- *A ellir gwaredu'r diodydd gwastraff i'r garthffos fudr gyhoeddus?*

Dim ond yn niffyg popeth arall y gellir ystyried yr opsiwn o waredu i'r garthffos.. (continued page 2)

Os gwaredu i'r garthffos yw'r unig opsiwn sydd ar gael, bydd angen i chi gael caniatâd ffurfiol Dŵr Cymru Welsh Water **cyn** rhyddhau unrhyw gynnyrch i'r rhwydwaith o garthffosydd o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae diodydd alcoholaidd gwastraff yn sylweddau llygrol iawn sy'n gallu cael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd heb reolaeth briodol. Mae rhyddhau sylwedd i garthffos heb awdurdod yn drosedd.

Er mwyn cael caniatâd ffurfiol, rhaid darparu gwybodaeth am leoliad yr eiddo a faint o gynnyrch sydd yna i gael gwared arno.

I drafod rhyddhau i garthffos, cysylltwch â Trade.Effluent@dwrcymru.com.

Rhaid i chi **beidio â** chael gwared ar ddiodydd gwastraff:

- i weithfeydd carthffosiaeth preifat neu danc septig. Mae yna berygl mawr o orlwytho'r broses drin, gan achosi difrod costus a llygru'r dyfroedd lle ryddheir y gwastraff.
- i lawr unrhyw ddraen, ac yn enwedig draen dŵr wyneb. Fel y nodwyd eisoes, mae diodydd alcoholaidd gwastraff yn sylweddau llygrol iawn, ac os byddant yn mynd i gwrs dŵr, gallant achosi difrod amgylcheddol difrifol fel lladd pysgod.

Diwedd